



# BAGLORIAETH CYMRU

Cyfnod Allweddol 4  
Cenedlaethol/Sylfaen

Her Dinasyddiaeth Fyd-eang  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Ynni Gwyrdd



**Cyfoeth  
Naturiol  
Cymru**  
**Natural  
Resources  
Wales**

**Ar gael i'w asesu o fis Medi 2017**

## DIBEN

Diben yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yw meithrin sgiliau dysgwyr, wrth ddarparu cyfleoedd iddynt ddeall materion byd-eang ac ymateb yn briodol iddynt. Fel rhan o'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, bydd y dysgwyr yn meithrin sgiliau penodol ym maes **Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau a Chreadigedd ac Arloesi** ac yn eu defnyddio mewn modd priodol.

## BRIFF

Mae yna lawer o broblemau yn y byd y dylem i gyd helpu i'w datrys hyd yn oed os ydynt yn digwydd gannoedd neu filoedd o filltiroedd i ffwrdd, neu yn eich ardal chi yma yng Nghymru. Sut ydych chi'n dod yn ddinesydd byd-eang? Mae'n rhaid i chi ddatblygu cydwybod ddynol a barnu ar y materion sy'n bwysig a'r math o fyd yr ydych eisiau byw ynddo. Mae bod yn ddinesydd byd-eang yn rhoi'r gallu i chi wneud newid positif sy'n gwneud y byd hwn yn well lle.



Diben **Cyfoeth Naturiol Cymru** yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

Mae **Cyfoeth Naturiol Cymru** (CNC) yn cynnal busnesau a menter ar yr ystâd sy'n eiddo iddo a'r ystâd a reolir ganddo, gan gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy fel datblygu ffermydd gwynt a phŵer trydan dŵr. Yn ogystal â chwilio am ffyrdd i ddatblygu'r cyfleoedd hyn ymhellach, mae **CNC** hefyd yn edrych ar ffyrdd newydd i gynhyrchu incwm y gellir ei ail-fuddsoddi wedyn er budd ein hadnoddau naturiol a'n hamgylchedd.

Mae ein ffyrddiau gwaith presennol yn cynnwys:

- Rhaglen Ynni Gwynt
- Rhaglen Ynni Dŵr ar Raddfa Fach
- Mynediad Trydydd Parti ar gyfer Rhaglen Ynni
- Biomass

Bydd yr her hon yn gofyn i chi allu hysbysu ac addysgu pobl am bwysigrwydd **ynni gwynt**. Bydd angen i chi ddeall effeithiau lleol a byd-eang **ynni gwynt** gan ddefnyddio ystod o wybodaeth i archwilio safbwyntiau gwahanol bobl ac i ffurfio eich syniadau chi mewn safbwynt personol. Bydd yn rhaid i chi wedyn godi ymwybyddiaeth am yr angen i gynyddu ynni gwyrdd, ac yn enwedig ynni gwynt, gyda chynulleidfa darged, mewn ffordd greadigol ac arloesol. Dylech gynllunio eich dull codi ymwybyddiaeth fel ei fod yn apelio at eich cynulleidfa darged a defnyddio cyfathrebu effeithiol gan roi neges glir sy'n gofiadwy, gwreiddiol a pherthnasol.

Bydd cwblhau'r Her hon yn dangos eich bod yn gallu ymresymu, barnu a gwneud penderfyniadau er mwyn creu safbwynt personol deallus ar ynni gwynt. Mae'r gwaith o godi ymwybyddiaeth yn gyfle i chi ddangos pa mor greadigol ac arloesol y gallwch fod wrth gyfleu eich syniadau a chyflwyno'ch neges i bobl eraill.

## MANYLION CYSWLLT

Ebost: [education@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:education@naturalresourceswales.gov.uk)

Gwefan: [www.naturalresources.wales](http://www.naturalresources.wales)